

PENNAWD Y PENNAETH

CYLCHLYTHYR YGC GORFFENNAF 2026



BLWYDDYN O LWYDDIANT A CHYDNABYDDIAETH

Rydym yn hynod falch bod Ysgol Gymraeg Caerffili wedi cyrraedd rhestr fer Gwobrau Ysgolion Tes 2026 ar gyfer Ysgol Gynradd y Flwyddyn, gan ein gosod ymhlith y 10 ysgol gynradd orau yn y DU ac fel yr unig ysgol Gymraeg i gael ei henwebu mewn unrhyw gategori. Yn ogystal, derbyniodd ein Tîm Ysgol Gyfan Dystysgrif Ragoriaeth yng Ngwobrau Addysgu Cenedlaethol Pearson 2026, ynghyd â llythyr o gydnabyddiaeth gan Syr Michael Morpurgo. Mae'r cyflawniadau arbennig hyn yn adlewyrchu ymroddiad ein staff, brwdfrydedd ein disgyblion, a chefnogaeth werthfawr ein teuluoedd a'n cymuned ysgol gyfan.



DAL ATI I DDARLLEN YR HAF HWN!

Dros wyliau'r haf, rydym yn annog pob teulu i ddarllen gyda'i gilydd. Boed hynny drwy rannu hoff stori, ymweld â'r llyfrgell neu fwynhau llyfr yn annibynnol, mae darllen yn rheolaidd yn helpu plant i gynnal eu sgiliau, datblygu eu dychymyg a meithrin cariad gydol oes at ddysgu. Rydym hefyd yn annog ein disgyblion i gymryd rhan yn yr Her Ddarllen Haf drwy eu llyfrgell leol a mwynhau darganfod llyfrau newydd drwy gydol y gwyliau.

YN CADW EIN STATWS BANER BLATINWM

Mae Ysgol Gymraeg Caerffili yn falch iawn o gyhoeddi ein bod wedi cadw ein statws Baner Blatinwm Eco-Ysgolion Cymru unwaith eto eleni. Mae'r gydnabyddiaeth fawreddog hon yn adlewyrchu ein hymrwymiad hirdymor i gynaliadwyedd ac i ofalu am yr amgylchedd. Dyfernir y Faner Blatinwm i ysgolion sy'n dangos rhagoriaeth barhaus mewn meysydd megis bioamrywiaeth, arbed ynni, ailgylchu a gweithredu amgylcheddol dan arweiniad disgyblion. Mae'r llwyddiant hwn yn dyst i frwdfrydedd ac ymroddiad ein disgyblion, ein staff a'n cymuned ysgol gyfan.

DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH

Wrth inni gyrraedd diwedd blwyddyn academiaidd lwyddiannus arall, hoffwn ddiolech yn ddiffuant i'n holl rieni a gofawyr am eich cefnogaeth, eich anogaeth a'ch partneriaeth barhaus. Mae eich cyfraniad yn rhan allweddol o lwyddiant a lles ein disgyblion, ac rydym yn hynod falch o'r hyn rydym wedi'i gyflawni gyda'n gilydd eleni. Diolch am fod yn rhan mor bwysig o gymuned Ysgol Gymraeg Caerffili. Dymunwn haf hapus, diogel ac ymlaciol i chi gyd, ac edrychwn ymlaen at groesawu pawb yn ôl ym mis Medi ar gyfer blwyddyn gyffrous arall.



THE HEADLINE

YGC NEWSLETTER JULY 2026

NATIONAL RECOGNITION FOR YSGOL GYMRAEG CAERFFILI

We are incredibly proud that Ysgol Gymraeg Caerffili was shortlisted for Primary School of the Year at the Tes Schools Awards 2026, placing us among the top 10 primary schools in the UK and making us the only Welsh-medium school to be nominated in any category. We are also delighted that our Whole School Team has been awarded a Certificate of Excellence in the Pearson National Teaching Awards 2026, together with a letter of recognition from Sir Michael Morpurgo. These prestigious achievements reflect the dedication of our staff, the enthusiasm of our pupils, and the invaluable support of our families and wider school community.



KEEP READING THIS SUMMER!

Over the summer holidays, we encourage all families to make time for reading together. Whether it's sharing a favourite story, visiting the library, or enjoying a good book independently, reading regularly helps children maintain their skills, develop their imagination and foster a lifelong love of learning. We also encourage pupils to take part in the Summer Reading Challenge through their local library and enjoy discovering new books throughout the holidays.

ANOTHER PLATINUM SUCCESS

Ysgol Gymraeg Caerffili is delighted to have once again been awarded the prestigious Platinum Flag Award from Eco-Schools Wales. This highest level of recognition reflects our sustained commitment to environmental excellence and can only be achieved through successive Green Flag renewals. The award celebrates the ongoing dedication of our pupils and staff to promoting biodiversity, reducing energy consumption, and embedding recycling and sustainability throughout school life.

ENDING THE YEAR WITH GRATITUDE

As we come to the end of another successful academic year, I would like to extend my sincere thanks to all our parents and carers for your continued support, encouragement and partnership. Your contribution plays a vital role in the success and wellbeing of our pupils, and we are incredibly proud of all that we have achieved together this year. Thank you for being such an important part of our school community. We wish all our families a happy, safe and restful summer holiday, and we look forward to building on this success and welcoming everyone back in September for another exciting year ahead.